



# **COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

## ***ADRODDIAD AM Y CYFNOD***

*1 Ebrill 2010 – 31 Mawrth 2011*

**Mehefin 2011**



# COMISIWN FFINIAU I GYMRU

## **Aelodaeth y Comisiwn:-**

Y Llefarydd, Y Gwir Anrh. John Bercow AS, Cadeirydd Ex-Officio

Yr Anrh. Mr Ustus Lloyd Jones, Dirprwy Gadeirydd –wedi'i benodi 18 Rhagfyr 2006 ac wedi'i ail-benodi yn Hydref 2009.

Mr Paul Wood, Comisiynydd – wedi'i benodi gyntaf 1 Mai 2008 tan 30 Ebrill 2013

Mr John Bader, Comisiynydd - wedi'i benodi gyntaf 1 Mai 2008 tan 30 Ebrill 2013

Y Cofrestrydd Cyffredinol i Loegr a Chymru (Asesydd)

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans (Asesydd)

Mr E H Lewis, Cyd-Ysgrifennydd (Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru) – wedi'i benodi 1 Ionawr 2002

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Tŷ Caradog  
1 – 6 Plas Sant Andreas  
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031  
Ffacs: 020 2039 5250

Ebost: [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)  
Gwefan: [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

***Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Saesneg neu yn y Gymraeg***

# **Y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru**

## **Adroddiad Blynyddol 2010 i 2011**

### **RHAGAIR**

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru wedi cyflawni nifer o adolygiadau dros dro ar ffiniau etholaethau Seneddol. Gellir dod o hyd i fanylion o'r adolygiadau dros dro hyn o fewn yr adroddiad hwn.

Bydd y Ddeddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011 yn achosi newid sylfaenol yn yr etholaethau Seneddol yng Nghymru. Yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd cyhoeddusom yn ffurfiol ar 3 Mawrth 2011 fod adolygiad cyffredinol o etholaethau yng Nghymru yn cychwyn. Enw'r adolygiad hwn fydd Adolygiad 2013.

Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Comisiynwyr, i'r Ysgrifennydd ac i'r Ysgrifenyddiaeth am eu cymorth drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf.

***Syr David Lloyd Jones***  
**Dirprwy Gadeirydd**

**Mehefin 2011**

## **CYFLWYNIAD**

### **Y Noddwr**

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru'n Gorff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol a noddir gan Swyddfa'r Cabinet<sup>1</sup> ac a ariannir yn llwyr ganddi. Mae'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i gyfrifoldeb statudol ef yw eu gosod o flaen y Senedd. Ble mae'r adroddiad yn argymhell bod angen newidiadau i ffiniau etholaethau Seneddol neu i ffiniau rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, mae rhaid iddo hefyd osod y drafft o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i weithredu ein hargymhellion. Os bydd yn penderfynu addasu'r argymhellion, mae rhaid iddo hefyd osod datganiad o'i resymau am wneud felly. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Dirprwy Gadeirydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi un o aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, a'r ddau Gyd-Ysgrifennydd (gweler yr Aelodaeth isod).

### **Y Comisiwn**

2. Sefydli'r y Comisiwn o dan Adran 2 ac Atodlen 1 y Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel a ddiwygiwyd). Mae'n sefydliad annibynnol, anwleidyddol a chwbl ddiuedd a manteisir ar bob cyfle i bwysleisio'n gryf iawn nad yw canlyniadau etholiadau blaenorol yn dod i mewn i ystyriaethau'r Comisiwn, ac na ddylent. Hefyd nid ystyrir effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol. Yn ei nodiadau o gyfarwyddyd ar gyfer Comisiynwyr Cynorthwyol mae'r Comisiwn yn cynghori na ddylai'r fath ffactorau ddod i mewn i ystyriaeth mewn ymchwiliadau cyhoeddus.
3. O sefydlu Comisiwn parhaol yn 1944 tan 1 Ionawr 2002, staffiwyd y Comisiwn yn Llundain, ar hyd fraich o'r Adran Noddi, gan swyddogion y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), a'i ddau ragflaenydd, y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol a'r Swyddfa Cyfrifiadau ac Arolygon Poblogaeth. Darparodd yr SYG adeiladau a gwasanaethau ategol eraill i'r Comisiwn. Adennillwyd costau staff a chostau eraill a dynnwyd gan yr SYG wrth iddynt gefnogi'r Ysgrifenyddiaeth oddi wrth yr Adran Noddi ar sylfaen chwarterol mewn ôl-ddyled. Yn effeithiol o 1 Ionawr 2002, mae swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (CFLLG), a leolir yng Nghaerdydd, wedi staffio'r Ysgrifenyddiaeth.

### **Aelodaeth**

4. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd ex-officio'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol i gyd yn y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Llefarydd yn pwysleisio annibyniaeth, didueddrwydd a'r natur anwleidyddol. Nid yw'r Llefarydd yn chwarae dim rhan wrth gynnal adolygiadau. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n

---

<sup>1</sup> O Fai 2010 derbyniodd Swyddfa'r Cabinet y cyfrifoldeb oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn cysylltiad â'r Comisiwn.

llywyddu ar y cyfarfodydd, yn Farnwr yr Uchel Lys: yr Anrhydeddus Mr. Ustus Lloyd Jones (Syr David). Yr Aelodau yw Mr Paul Wood a Mr John Bader.

5. Trwy gytundeb, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn penodi un aelod i'r Comisiwn; mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n penodi'r llall.
6. Mae'r Comisiynwyr yn benodeion rhan-amser sy'n cwrdd, pryd bynnag mae'r rhaglen waith yn gofyn, yn y swyddfeydd a rennir â'r CFLLG yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd un cyfarfod yn ystod y cyfnod a drafodir gan yr adroddiad hwn. Ers pasio'r Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992, talwyd Aelodau'r Comisiwn (heb gynnwys y Dirprwy Gadeirydd) ffi ddyddiol a gytunwyd gan yr Adran Noddi â'r Trysorlys am waith a wneir ar ran y Comisiwn a, gyda'r Dirprwy Gadeirydd, mae hawl ganddynt ailennill unrhyw dreuliau (fel treuliau teithio a chynhaliaeth) a dynnir ar waith y Comisiwn.
7. Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr Buddiannau'r Aelodau, a ddiweddarir yn flynyddol. Mae copïau'r dogfennau hyn ar gael ar gais.
8. Mae gan y Comisiwn ddau asesydd statudol. Un yw Cofrestrydd Cyffredinol Lloegr a Chymru sy'n Gyfarwyddwr ONS, a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans. Mae dirprwyon yn cynrychioli'r ddau yng nghyfarfodydd y Comisiwn; Ms. Alison Whitworth ar ran y Cofrestrydd Cyffredinol a Ms Michaela Gordon ar ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol.
9. Mae Cyd-Ysgrifennydd: Mr Edward Lewis, sy'n bennaeth yr Ysgrifenyddiaeth, a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor a chan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

### **Yr Ysgrifenyddiaeth**

10. Rôl yr Ysgrifenyddiaeth yw i wasanaethu'r Comisiynwyr ac i'w cynorthwyo wrth iddynt gynnal eu hadolygiadau ac wrth iddynt weithredu eu penderfyniadau. Lleolir yr Ysgrifenyddiaeth yn swyddfeydd yr Ysgrifenyddiaeth i'r LGBCW yng Nghaerdydd ac mae cydgysylltu ynghylch staffio ac adeiladau'n cymryd lle'n gyfredol â Llywodraeth Cymru.

### **Dyletswyddau Statudol**

11. Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw cadw'r dosbarthiad o seddi mewn etholiadau Seneddol dan sylw, i gynnal adolygiadau rheolaidd ar ffiniau etholaethau Seneddol ac i wneud adroddiadau ag argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel a ddiwygiwyd). Hefyd gall y Comisiwn ymgymryd ag adolygiadau disgresiwn neu dros dro mewn un neu fwy o etholaethau ble mae'r Comisiynwyr yn credu ei fod yn briodol.

Mae'r Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r dosbarthiad o seddi Seneddol. Yn ychwanegol, erbyn hyn bydd angen i adolygiad o etholaethau Seneddol gael ei

gynnal yn ystod bywyd pob Senedd. Rhagwelir felly y bydd angen cyflawni'r adolygiad nesaf erbyn yr Hydref 2018 yn sgil cyflawni Adolygiad 2013.

Hefyd symudodd y Ddeddf y cysylltiad rhwng yr etholaethau Seneddol ac etholaethau Cynulliad Cymru. Erbyn hyn rhagwelir y bydd deddfwriaeth newydd yn gosod mecanwaith ar gyfer adolygu etholaethau Cynulliad Cymru'n rheolaidd.

### **Cysylltu â Chyrff Eraill**

12. Cynhaliodd yr Ysgrifenyddiaeth gysylltiad rheolaidd â'r Comisiynau Ffiniau eraill drwy gyfrwng cyfarfodydd a chyfnewid gwybodaeth. Dylai'r Comisiwn fod wedi'i gynrychioli mewn cyfarfod o'r Comisiynau Ffiniau Seneddol a Llywodraeth Leol, a oedd wedi'i drefnu i gymryd lle yng Nghaeredin yn Ebrill 2010, ond dileuwyd y digwyddiad hwn oherwydd anawsterau teithio. Rhagwelir yr aildrefnir y digwyddiad hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Hefyd cynhaliwyd cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth Cymru a'r Arolwg Ordnans.

Cynrychiolwyd y Comisiwn mewn cyfarfod o'r Comisiynau Ffiniau Seneddol a Llywodraeth Leol a gymerodd le ar 3 a 4 Ebrill 2010. Cynhaliwyd cyfarfod arall yng Nghaerdydd ar Fawrth 21 er mwyn galluogi trafodaeth lawn ar oblygiadau'r Ddeddf newydd.

## **AMCANION**

### **Amcan Cyffredinol**

13. I gadw cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin ac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru dan sylw parhaol (erbyn hyn wedi'i ddiwygio gan Ddeddf 2011).

### **Amcanion Penodol ar gyfer 2010/2011**

14. Mae'r Comisiwn yn sefydlu ei amcanion ei hunan ar gyfer pob blwyddyn. Ar gyfer 2010/2011, sefydlwyd amcan i ymgymryd â chyfres o adolygiadau dros dro ar yr etholaethau Seneddol a Chynulliad. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiad ar etholaethau Seneddol Brycheiniog a Sir Faesyfed, Merthyr Tudful a Rhymni, Gogledd Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth a Bro Morgannwg, ac Ogwr a Phontypridd. Cododd yr adolygiadau hyn fel canlyniad i newidiadau i ffiniau Llywodraeth Leol ar ôl adolygiadau a gynhaliwyd gan yr CFLLG. Cyflawnwyd yr holl adolygiadau dros dro hyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

### **Cynllun Iaith Gymraeg**

15. Mae telerau ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gofyn i'r Comisiwn gyflwyno adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch gweithredu'r cynllun.

## CYLLIDEB A GWARIANT

16. Mae'r tabl dilynol yn cymharu'r gwariant gwirioneddol â'r gyllideb, yn ystod y flwyddyn ariannol a drafodir gan yr adroddiad hwn, ac mae'n dangos unrhyw wahaniaethau.

### Cyllideb a Gwariant wrth yr Is-bennawd – 2010/2011

<b>Cydran Gyllideb</b>	<b>Cyllideb</b>	<b>Gwariant</b>	<b>Gwahaniaeth</b>
	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>
Salariau ac YG	167,400	59,317	-108,083
Gorbenion	31,000	29,487	-1,513
T & Ch	4,364	4,267	-97
Amrywiol	23,210	14,870	-8,340
<b>Cyfanswm Costau Rhedeg</b>	<b>225,974</b>	<b>107,941</b>	<b>-118,033</b>
Hysbysebu	15,000	14,389	-611
Costau AO	0	0	0
Ffioedd Ymchwiliad	0	0	0
Ffioedd Comisiynwyr	7,600	7,583	-17
T & Ch Comisiynwyr	900	862	-38
Amrywiol	7,550	4,815	-5,727
<b>Cyfanswm Cyfredol Arall</b>	<b>31,050</b>	<b>27,649</b>	<b>-3,401</b>
<b>Cyfanswm Mawr</b>	<b>257,024</b>	<b>135,590</b>	<b>-121,434</b>

17. Mae'r tabl isod yn dangos lefelau staff arfaethedig a gwirioneddol yr Ysgrifenyddiaeth wrth y chwarter yn ystod y flwyddyn ariannol.

### Cyflawnder y Staff - 2010/2011

<b>Gradd</b>	<b>1/4/2010</b>		<b>1/7/2010</b>		<b>1/10/2010</b>		<b>1/1/2011</b>	
	<b>Cynllun</b>	<b>Gwir.</b>	<b>Cynll.</b>	<b>Gwir.</b>	<b>Cynll.</b>	<b>Gwir.</b>	<b>Cynll.</b>	<b>Gwir.</b>
Cyd-Ysg.	0.50	0.23	0.50	0.52	0.50	0.29	0.50	0.50
Band LIC E	0.50	0.07	0.50	0.20	0.50	0.25	0.50	0.29
Band LIC C	2.00	0.10	2.00	0.65	2.00	0.62	2.00	1.11
Band LIC A/B	0.00	0.00	0.50	0.12	0.50	0.07	0.50	0.09
<b>Cyfanswm</b>	<b>3.00</b>	<b>0.40</b>	<b>3.50</b>	<b>1.49</b>	<b>3.50</b>	<b>1.23</b>	<b>3.50</b>	<b>1.99</b>

Yn ystod y flwyddyn, fel canlyniad i drafodaethau rhwng y ddau Gomisiwn a'r cyrff noddi, cytunwyd ar gryfhau cyflawnder staff yr Ysgrifenyddiaeth drwy gynyddu'r nifer o staff a gyflogir yn uniongyrchol. Roedd y cynllun yn rhagweld 7 o aelodau



staff a gyflogir yn uniongyrchol â gweddill y staff yn dod ar secondiad o gyrff cyhoeddus eraill.

Cychwynnodd y broses recriwtio yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol ddiwethaf a rhagwelir y bydd staff ychwanegol wedi cychwyn eu swyddi yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf.

### **Gwariant Monitro**

18. Bob chwarter, mae'r Ysgrifenyddiaeth yn darparu adroddiad sy'n manylu ar wariant chwarterol a rhagolwg ynghylch gwariant uwch/is i'r adran noddi.

### **AMLINELLIAD AR Y RHAGLEN WAITH AR GYFER 2011/2012**

#### **Rhaglen**

19. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, y gyllideb fydd £718,614 a chyflawnder y staff fydd yn gyfwerth â 7 o staff llawn-amser. Ein hamcan penodol fydd:

I ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol sy'n ymgysylltiedig ag adolygiad 2013. Bydd hwn yn cynnwys cyhoeddi'r cynigion cychwynnol, ynghyd â chynnal cyfres o wrandawiadau cyhoeddus yn gynnar yn 2012.

Hefyd rhagwelir y gallai'r cynigion diwygiedig gael eu cyhoeddi yn ystod yr haf 2012.